



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol *Weekly Newsletter*

21st September 2021 Issue 36

Rhaglen Atgyfnerthu Hydref Covid-19:

Ar ddydd Mawrth 14 Medi, argymhellodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) y dylid cynnig trydydd dos o frechlyn atgyfnerthu COVID-19 i unigolion cymwys a gafodd frechiad yn ystod Cam 1 y rhaglen frechu COVID-19 (grwpiau blaenoriaeth 1-9) **gyda chyfnod o o leiaf 6 mis ar ôl yr 2^{ail} ddos**. Argymhellir rhoi brechlyn mRNA (Pfizer-BioNTech neu Moderna) waeth pa frechlyn a roddwyd fel dos cyntaf.

Rhestrau o'r grŵp blaenoriaeth unigol:

- Pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl ar gyfer oedolion hŷn
- Pob oedolyn 50 oed a hŷn
- Gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd rheng flaen
- Pob unigolyn 16 i 49 oed gyda chyflyrau iechyd presennol sy'n eu rhoi nhw mewn mwy o berygl o gael COVID-19 difrifol (fel yr amlinellwyd yn y Llyfr Gwyrdd), ac oedolion sy'n gofalu
- Oedolion sy'n gysylltiadau yng nghartref unigolyn imiwnoatalliedig

Bydd ein timau brechu yn dechrau rhoi dosau atgyfnerthu i breswylwyr cartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn a'u gofalwyr o **ddydd Llun 20 Medi**.

Rwy'n gymwys, ond a ydw i wir angen dos atgyfnerthu?

Mae'n bwysig bod yr unigolion sy'n gymwys dan gyngor y JCVI yn cael dos atgyfnerthu o'r brechlyn COVID-19 pan gânt eu galw am apwyntiad, oherwydd gallai imiwnedd eu dosau blaenorol wario dros gyfnod o amser.

Hyd heddiw, y brechlyn yw'r ffordd orau i atal salwch difrifol a lledaeniad COVID-19. Anogir pob oedolyn cymwys i fanteisio ar y cynnig i gael y ddau ddos a dos atgyfnerthu, os ydynt yn gymwys.

Rwy'n gymwys, sut y cysylltir â mi er mwyn cael fy mrechlyn?

Hoffem roi sicrwydd i'n trigolion y byddwn yn cysylltu â phawb sy'n gymwys am frechlyn i gynnig apwyntiad iddynt. Gofynnwn i chi beidio â chysylltu â ni i wneud cais am apwyntiad, ond gofynnwn i chi sicrhau bod eich manylion yn gyfredol gyda Phractis eich Meddyg Teulu. Ceisiwn hysbysu pob unigolyn o leiaf wythnos cyn ei apwyntiad ac anfonir llythyrau i'r cyfeiriad cartref cofrestredig a gedwir gan eich Meddyg Teulu.



VACCINATION FIGURES

Up to 20/09/2021


Total number of Covid-19 vaccines given across our Health Board area (combination of 1st and 2nd doses)

873,680

Total 1st dose **449,378**

Total 2nd dose **424,302**

Age 60 years and over




Group 6 (at risk)



Age 55-59 years



Age 50-54 years



Age 40-49 years



Age 30-39 years



Age 18-29 years



Age 16-17 years





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Thank you for your continued support.
Together we will help keep Gwent safe.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Rhaglen Atgyfnerthu Hydref Covid-19, ewch i:
<https://gov.wales/written-statement-covid-19-vaccination-jcvi-announcement-autumn-booster-programme>

Cyhoeddwyd hefyd y dylid **cynnig dos cyntaf o'r brechlyn Covid-19 i blant 12-15 oed, nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yng nghyngor y JCVI.**

Anfonir gwahoddiadau i fynychu apwyntiad mewn clinig brechu trwy lythyrau. Sicrhewch fod y cofnodion a gedwir gan eich Meddyg Teulu yn gywir. Am ragor o wybodaeth ynghylch brechlyn dos Cyntaf unigolion 12-15 oed, ewch i:

Datganiad Ysgrifenedig: Brechiadau COVID-19 – Cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a'r Prif Swyddog Meddygol ar frechu plant a phobl ifanc 12-15 oed (14 Medi 2021) | LLYW.CYMRU
Datganiad Ysgrifenedig: Brechiadau COVID-19 – Cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a'r Prif Swyddog Meddygol ar frechu plant a phobl ifanc 12-15 oed (14 Medi 2021) | LLYW.CYMRU



Kim Waters, from Fields Care home, receiving her booster vaccine in Newport Centre

Imiwnoataliedig

Trydydd brechlyn Covid-19 i bobl sy'n imiwnoataliedig difrifol

Yn dilyn cyhoeddiad y JCVI, byddwn yn cynnig trydydd dos sylfaenol o'r brechlyn COVID-19 i unigolion 12 oed a hŷn sydd â gwrthimiwnedd difrifol, oherwydd cyflyrau iechyd sylfaenol neu driniaeth feddygol. Mae JCVI wedi dweud y dylai'r grŵp hwn o gleifion fod yn flaenoriaeth o ran cael trydydd dos, gan ei bod hi'n bosibl nad yw eu brechiadau sylfaenol wedi creu ymateb imiwnedd sylweddol yn eu cyrff hyd yn hyn.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer trydydd dos sylfaenol fel yr amlinellir gan y JCVI, gofynnwn i chi gysylltu â'n tîm brechu ar 0300 303 1373 cyn gynted â phosibl. Bydd ein tîm wrth law i gymryd yr holl fanylion perthnasol cyn cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich sefyllfa. Am ragor o wybodaeth ynghylch y cyhoeddiad a'r meini prawf penodol, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination>

For information and to apply for the NHS Covid Vaccination Passport, please visit:

<https://gov.wales/get-nhs-covid-pass-show-your-vaccination-status-travel>

Public Health Wales publish daily vaccination figures on their website:

<https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

For further information and FAQs on the delivery, eligibility and safety of the vaccine, please visit:

<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>